



1. Rhowch y rhifau 1 1 1 2 2 2 3 3 3 yn y sgwariau.

Rhaid i'r tri rhif ym mhob llinell (ar draws, ar i fyny, a chroeslinol) adio i 6 bob tro.



2. Sawl triongl sydd yn y llun?




Ateb _____

3. Darganfyddwch bedwar odrif olynol sy'n adio i 80.

Ateb _____



- 4.



Sawl ongl lem sydd yn y llun hwn?

Ateb _____

5. Yn y tai hyn a yw hi'n bosibl i fynd o A i B? Rhaid mynd trwy bob drws unwaith yn unig



6. Mewn mis Mawrth arbennig roedd 5 Dydd Llun, 5 Dydd Mawrth a 5 Dydd Mercher.

Ar ba ddiwrnod o'r wythnos oedd Ebrill 1af?

Ateb _____

7. Yn y llun hwn gallwch gychwyn o unrhyw sgwâr a symud ar draws neu i fyny neu i lawr (ond nid yn groesliniol) i'r sgwâr nesaf.

Ni allwch defnyddio'r un sgwâr ddwywaith.

Nodwch ddigidau'r sgwariau yn eu tro. Mae'r digidau'n ffurfio rhif.

Beth yw'r rhif mwyaf y gellir ei ffurfio?

5	9	1
8	4	7
3	6	2

Ateb _____

8. Mae gennych ddau gloc. Mae'r cloc cyntaf yn ennill 4 eiliad bob awr a'r ail gloc yn colli 6 eiliad bob awr. Trefnir bod y ddau gloc yn cychwyn ar yr amser cywir. Ymhen faint o amser bydd y gwahaniaeth rhwng amserau'r ddau gloc yn union awr?

Ateb _____

9. Mae car wedi teithio 24000km ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi defnyddio 6 theiar. Teithiodd y car yr un pellter ar bob theiar.

Beth oedd y pellter hwnnw?

Ateb _____


10. Mewn cystadleuaeth gwyddbwyll chwaraeodd pawb ei gilydd unwaith.

Cafwyd cyfanswm o 300 o gemau. Faint oedd yn cystadlu?

Ateb _____

11. Rhowch y rhifau 1 - 8 yn y cylchoedd.

Rhaid gosod y rhifau fel nad oes unrhyw linell yn cysylltu dau rif olynol.



12.

7	5	3	7	1	9
6	4	2	8	3	9
2	9	5	5	2	8
7	1	6	9	6	2
4	8	5	1	3	4
8	4	1	7	6	3

Yn y grid gallwn ddefnyddio'r triawd $\begin{pmatrix} 9 \\ 1 \\ 7 \end{pmatrix}$ i ffurfio'r ateb 2, fel hyn

$$2 = 9 \times 1 - 7 \text{ (sylwch: lluosir ddau rif cyntaf ac yna tynnu'r trydydd)}$$

Gallwn hefyd ffurfio'r ateb 16, fel hyn

$$16 = 9 \times 1 + 7 \text{ (sylwch: lluosir ddau rif cyntaf ac yna adio'r trydydd)}$$

Pa driawdau eraill - ar draws, ar i fyny neu yn groeslinol - sy'n rhoi'r atebion canlynol

1 =	10 =
3 =	20 =
4 =	30 =
5 =	40 =
6 =	50 =
7 =	60 =
8 =	
9 =	

Cofiwch lluosir ddau rif cyntaf ac yna adio neu dynnu'r trydydd rhif bob tro.